

RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Rhithiol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ddydd Llun, 25 Ionawr 2021

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ddydd Iau, 28 Ionawr, 2021. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm dydd Iau, 4 Chwefror, 2021. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd cais dilys i'w galw i mewn) ddydd Gwener, 5 Chwefror, 2021.

Presennol: Y Cynghorwyr R Dew, Llinos Medi Huws (Cadeirydd) R. Meirion Jones, R G Parry OBE FRAGS, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Alun W Mummery, Carwyn Jones a Robin Williams

Hefyd yn Bresennol: Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Kenneth Hughes, Trefor Lloyd Hughes MBE, Aled M. Jones, R. Llewelyn Jones, Dylan Rees, Dafydd Roberts.

Ymddiheuriadau: Dim

(10:00yb - 11:00yb)

RHIF YR EITEM A'R PWNC	3 Cofnodion Amherthnasol
PENDERFYNIAD	Cadarnhawyd fod cofnodion blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol yn gofnod cywir – <ul style="list-style-type: none">• 30 Tachwedd, 2020• 14 Rhagfyr, 2020• 17 Rhagfyr, 2020 (arbennig)
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Amherthnasol
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Amherthnasol

RHIF YR EITEM A'R PWNC	4 Cofnodion - Panel Rhiantu Corfforaethol Amherthnasol
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd mabwysiadu cofnodion drafft cyfarfod y Panel Rhiantu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 8 Rhagfyr, 2020.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Amherthnasol

A OES MODD EI ALW I MEWN?	Amherthnasol
RHIF YR EITEM A'R PWNC	5 Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd cadarnhau Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod rhwng Chwefror a Medi, 2020 gyda'r newid ychwanegol a amlinellwyd yn y cyfarfod.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau o ran cynllunio ymlaen llaw
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

RHIF YR EITEM A'R PWNC	6 Newidiadau i'r Cyfansoddiad – Ail Strwythuro'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth Adroddiad gan y Prif Weithredwr
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd argymhell i'r Cyngor Llawn ei fod yn – <ul style="list-style-type: none"> • Nodi argymhellion y Pwyllgor Penodi a chadarnhau: <ul style="list-style-type: none"> • Dileu swydd Cyfarwyddwr Lle a Llesiant Cymunedol (swydd sydd hefyd wedi ei hadnabod fel Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Datblygu Economaidd yn ystod y broses recriwtio ddiweddar) o Gyfansoddiad y Cyngor; • Creu rôl barhaol Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd ac i'r rôl hon gael ei hysbysebu'n allanol; • Sefydlu a hysbysebu'n allanol swydd newydd, sef Swyddog Strategaeth Gorfforaethol.

	<ul style="list-style-type: none"> • Cadarnhau cynnwys Atodiad 2, sy'n adlewyrchu'r diwygiadau uchod i strwythur y Cyngor yng Nghyfansoddiad y Cyngor; • Cadarnhau ei fod yn cymeradwyo bod y Prif Weithredwr (yn dilyn ymgynghoriad), yn unol â'r awdurdod sydd wedi ei gynnwys yn rhan 3.5.2.11 o'r Cyfansoddiad, ac o ganlyniad i'r newid strwythurol uchod, yn rhannu'r meysydd cyfrifoldeb perthnasol ymhlith yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth, fel bo'r angen. • Cadarnhau ei fod yn cymeradwyo bod y Swyddog Monitro, yn unol â'r awdurdod sydd wedi ei gynnwys yn rhan 3.5.3.6.6 o'r Cyfansoddiad, yn diwygio'r Cyfansoddiad (gan gynnwys y cynllun dirprwyo i swyddogion) i adlewyrchu'r penderfyniadau a wnaed gan y Cyngor mewn perthynas â'r newid strwythurol uchod a dosbarthiad y cyfrifoldebau ymhlith yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Penaethiaid Gwasanaeth fel y gwnaed gan y Prif Weithredwr dan y chweched pwynt bwled uchod. • Cadarnhau ei fod yn cymradwyo bod y Swyddog Monitro yn gwneud unrhyw newidiadau canlyniadol eraill i'r cyfansoddiad i adlewyrchu'r argymhellion uchod.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Er mwyn gwneud newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor i adlewyrchu newidiadau i strwythur yr Uwch Dîm Rheoli
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Amherthnasol. Mae'r adroddiad yn destun cymeradwyaeth y Cyngor Llawn

RHIF YR EITEM A'R PWNC	7 Strategaeth Tai Dros Dro 2020/21 Adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd cymeradwyo'r canlynol –

	<ul style="list-style-type: none"> • Strategaeth Tai Dros dro 2021. • Y dull o gyfathrebu wrth ddatblygu'r Strategaeth Tai 2022-27 a chynllun gwaith gyda phartneriaid sydd yn arwain at gyfnod ymgynghori a chymeradwyaeth terfynol
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Er mwyn cymeradwyo'r Strategaeth Tai Dros dro
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

RHIF YR EITEM A'R PWNC	8 Cynllun Bioamrywiaeth Adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd Dros dro
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a mabwysiadu'r Cynllun Bioamrywiaeth yn ffurfiol.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Cydymffurfio â gofyniad statudol
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

RHIF YR EITEM A'R PWNC	9 Cynllun Argyfwng Bws Adroddiad gan y Pennaeth Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo
PENDERFYNIAD	Penderfynwyd – <ul style="list-style-type: none"> • Cytuno i egwyddorion Cytundeb BES2 (Atodiad 2 i'r adroddiad) i sicrhau cymorth ariannol (amodol) ar gyfer y sector bysiau ac i sefydlu perthynas â'r awdurdod arweiniol rhanbarthol a'r llofnodwr, sy'n sicrhau bod y cyllid brys parhaus yn diwallu blaenoriaethau'r awdurdod ac yn cael ei ddarparu ar ei ran. • Galw am adroddiad arall ar gynigion diwygio bysiau mewn perthynas â rheoli gwasanaethau bws yng Nghymru yn y dyfodol.

RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Er mwyn amddiffyn awdurdodau lleol a gwasanaethau bws mewn ymateb i'r pandemig.
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes